Nodiadau Cyfarfod Cyngor Datblygu'r Economi

Amser: 9.30am – 11.30am
Dyddiad: 12 Hydref 2017
Lleoliad: Ystafell Gynadledda 6, CP2, Caerdydd

Gweinidogion a oedd yn bresennol

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC	Y Prif Weinidog
Ken Skates AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Mark Drakeford AC	Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Y Fonesig Shan Morgan DCMG	Yr Ysgrifennydd Parhaol

Rhanddeiliaid a oedd yn bresennol

Leighton Jenkins	Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
Lloyd Powell	Cymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig
Martin Warren	Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
Robert Lloyd Griffiths	Sefydliad y Cyfarwyddwyr
Ifan Glyn	Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr
Ben Cottam	Y Ffederasiwn Busnesau Bach
David Morgan	Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig
Elgan Morgan	Siambr Fasnach De Cymru
Nigel Keane	Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
Derek Walker	Canolfan Cydweithredol Cymru
Martin Mansfield	TUC Cymru
Julie Cook	TUC Cymru
Alex Bevan	TUC Cymru

Ymddiheuriadau

Chris Sutton	Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (Is-gadeirydd)
Ian Price	Cydffederasiwn Diwydiant Prydain
Julie-Ann Haines	Y Cyngor Benthycwyr Morgeisi
Paul Byard	EEF (Cadeirydd Commerce Cymru)
Ian Gallagher	Y Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau
Mark Harris	Y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Huw Thomas	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr
Lowri Morgan	Cymdeithas y Cyfreithwyr
Heather Myers	Siambr Fasnach De Cymru
Heather Eason	Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru
Mark Judd	Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru

James Price	Y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol
Tracey Burke	Cyfarwyddwr, Strategaeth yr Economi a'r Seilwaith
Huw Morris	Cyfarwyddwr, Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
Jonathan Price	Y Prif Economegydd
Paul Harrington	Eitem 2 ar yr agenda
Nick Sullivan	Eitem 3 ar yr agenda
Peredur John	Eitem 4 ar yr agenda
Rhodri Griffiths	Eitem 5 ar yr agenda
Jane Anstee	Cofnodwr
Derek Goode	Cofnodwr

1. Cyflwyniadau a sylwadau agoriadol

1.1 Croesawodd y Prif Weinidog yr aelodau i'r cyfarfod gan nodi'r pedair prif eitem ar yr agenda:

- Pontio o ran yr UE – Diweddariad
- Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru
- Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol
- Rheilffyrdd – Diweddariad.

1.2 Ychwanegodd y Prif Weinidog fod chwe phapur i'w nodi: pum Adroddiad Blynyddol ar Weithredu Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru a phapur EEF, sef *'Making Sector Deals work for industry'*.

2. Pontio o ran yr UE – Diweddariad

2.1 Dywedodd y Prif Weinidog fod y papur ynghylch Pontio o ran yr UE yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am ddatblygiadau ers y cyfarfod diwethaf. Dywedodd y Prif Weinidog ei fod, yn dilyn cyfarfod diwethaf y Cyngor, wedi ysgrifennu at y Gwir Anrhydeddus David Davis AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, yn ei wahodd i gyfarfod y Cyngor. Mynegodd y Prif Weinidog ei siom nad oedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn gallu bod yn bresennol.

2.2 Esboniodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi diwygiadau i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) ar y cyd â'r Alban[1]. Yn ei ffurf bresennol byddai'r Bil yn cyflwyno cyfyngiadau newydd ar bwerau datganoledig, ac yn ei gwneud yn bosibl i weinidogion y DU ddiwygio deddfwriaeth ddatganoledig. Ychwanegodd nad bwriad y diwygiadau oedd rhwystro'r penderfyniad i ymadael â'r UE, ond yn hytrach gwarchod buddiannau Cymru.

2.3 Tynnodd y Prif Weinidog sylw at bapur diweddaraf Llywodraeth Cymru ynghylch ymadael â'r UE, sy'n esbonio dull teg o ymdrin â mewnfudo i'r DU yn y dyfodol[2]. Ychwanegodd fod y papur yn cynnig system a fyddai'n sicrhau bod mewnfudo i'r DU yn y dyfodol yn gysylltiedig â chyflogaeth.

2.4 Dywedodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi dau bapur yn ystod y toriad, sef *Future customs arrangements*[3] a *Northern Ireland and Ireland*[4]. Esboniodd na fu unrhyw ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch y naill bapur na'r llall ac mai ychydig iawn o rybudd a gafwyd ynghylch eu cyhoeddi. Ar 18 Awst cyhoeddodd y Prif Weinidog Ddatganiad Ysgrifenedig ynghylch y ddwy ddogfen, yn esbonio pryder Llywodraeth Cymru ynghylch cynnwys y dogfennau ac ynghylch proses Llywodraeth y DU[5].

[1] http://llyw.cymru/newsroom/firstminister/2017/170919-fms-call-on-pm-to-work-with-devolved-nations/?lang=cy
[2] http://llyw.cymru/newsroom/firstminister/2017/170907-brexit-and-fair-movement-of-people/?lang=cy
[3] https://www.gov.uk/government/publications/future-customs-arrangements-a-future-partnership-paper
[4] https://www.gov.uk/government/publications/northern-ireland-and-ireland-a-position-paper
[5] http://llyw.cymru/about/cabinet/cabinetstatements/2017/ukgovdocsbrexit/?lang=cy

2.5 Er bod araith Prif Weinidog y DU yn Fflorens[6] yn gam i'r cyfeiriad cywir ac yn adlewyrchu mewn sawl ffordd y safbwynt a fynegwyd ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru[7], esboniodd y Prif Weinidog fod y sôn mwy diweddar am "ddiffyg cytundeb" yn peri pryder.

2.6 Dywedodd y Prif Weinidog fod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ddydd Llun ei phapur ar baratoi ar gyfer polisi masnach y DU yn y dyfodol[8]. Roedd yn siomedig bod hynny wedi digwydd heb fawr ddim rhybudd ymlaen llaw, ac roedd yn pryderu y byddai'n rhaid i fusnesau o Gymru sy'n allforio i'r UE dalu tollau uwch. Dywedodd ei fod eisoes wedi codi'r mater yn y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar Negodiadau'r UE ac y byddai'n ei godi eto yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor yr wythnos nesaf.

2.7 Hysbysodd y Prif Weinidog y Cyngor ynghylch y cyfarfod yr oedd ef ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi'i gael â Damian Green, y Prif Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog dros Swyddfa'r Cabinet. Pwysodd y Prif Weinidog am gyfarfodydd mwy rheolaidd gyda'r un bobl. Cytunodd y Prif Ysgrifennydd Gwladol â hynny.

2.8 Estynnodd y Prif Weinidog wahoddiad i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol roi sylwadau.

2.9 Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol sylw at y ffaith mai'r economi a swyddi oedd y prif flaenoriaethau wrth ymadael â'r UE mewn modd a fyddai'n rhoi'r ystyriaeth bennaf i swyddi. Aeth rhagddo wedyn i esbonio'r prif negeseuon y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i'w cyfrannu i'r broses hon:

- rhaid i fasnach a'r economi fod yn brif flaenoriaeth
- rhaid parhau i gael mynediad llawn a dirwystr i'r farchnad sengl a rhaid parhau i fod yn rhan o'r Undeb Tollau gyda'r UE
- rhaid cael syniadau credadwy, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gyfer meysydd polisi megis tegwch o ran symudiad pobl
- rhaid gwrthwynebu unrhyw syniad ynghylch "diffyg cytundeb", a fyddai'n drychinebus i Gymru.

2.10 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol fod perthynas waith dda'n bodoli rhwng Gweinidogion Cymru a'u cymheiriaid yn yr Alban yng nghyswllt pontio o ran yr UE. Pwysleisiodd rôl yr UE yn y trafodaethau, a thynnodd sylw at y cyfraniad yr oedd ef yn ei wneud trwy ymwneud yn gadarnhaol â phobl ddylanwadol allweddol yn y Comisiwn ac yn Senedd Ewrop.

[6] https://www.gov.uk/government/speeches/pms-florence-speech-a-new-era-of-cooperation-and-partnership-between-the-uk-and-the-eu
[7] http://llyw.cymru/newsroom/firstminister/2017/170123-brexit-plan/?lang=cy
[8] https://www.gov.uk/government/publications/preparing-for-our-future-uk-trade-policy

2.11 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ei fod wedi cynnal cyfarfod cyntaf y Gweithgor Ymadael â'r UE yr wythnos diwethaf[9] lle bu'r Athro Max Munday yn sôn am ei adroddiad diweddar sy'n ystyried yr effaith y byddai trefniadau mwy caled ar gyfer ymadael â'r UE yn ei chael ar gwmnïau mawr a chanolig eu maint yng Nghymru.

2.12 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Ysgol Busnes Caerdydd i lunio'r adroddiad hwn. Ychwanegodd y byddai mwy o waith yn cael ei wneud, gan gynnwys:

- adnabod unrhyw gyfleoedd sy'n codi yn sgîl ymadael â'r UE, a rhannu gwybodaeth amdanynt â byd busnes
- alinio'r gwahanol 'linynnau' gwaith sy'n digwydd yng nghyswllt ymadael â'r UE
- amlygu effeithiau penodol ymadael â'r UE ar fusnesau bach a chanolig eu maint
- edrych yn fanylach ar wahanol senarios ar gyfer ymadael â'r UE, gan gynnwys rhai o'r senarios 'mwy meddal'
- gwella ein dealltwriaeth o effeithiau rhwystrau ar wahân i dariffau
- nodi'r ffordd orau o gynorthwyo busnesau i gynyddu eu masnach ym marchnad fewnol y DU.

2.13 Dywedodd Ben Cottam fod y Ffederasiwn Busnesau Bach wedi cyhoeddi adroddiad sy'n dwyn y teitl "Canol Coll Cymru", sy'n rhannu barn Gweinidogion Cymru ynghylch ymadael â'r UE. Ychwanegodd Ben fod yr adroddiad yn canolbwyntio ar gwmnïau canolig eu maint yng Nghymru, a sut y gellid hybu'r cynnydd yn nifer y cwmnïau canolig eu maint[10].

2.14 Mynegodd Ben bryder ynghylch y diffyg cynnydd a wnaed o ran y trafodaethau, a'r angen i Lywodraeth y DU weithio gyda Llywodraeth Cymru a gweinyddiaethau datganoledig eraill. Esboniodd fod aelodau'r Ffederasiwn Busnesau Bach yn poeni'n arbennig ynghylch y canlynol:

- tariffau a rhwystrau ar wahân i dariffau
- gweithgarwch allforio
- mynediad i weithwyr medrus o'r UE.

2.15 Tynnodd Ben sylw hefyd at y ffaith bod hyder wedi lleihau ymhlith busnesau, ac roedd yn siomedig nad oedd David Davis wedi derbyn y gwahoddiad i ddod i'r cyfarfod.

2.16 Cyfeiriodd Robert Lloyd Griffiths at y ffaith bod llai o hyder a mwy o ddryswch ymhlith yr aelodau. Croesawodd adroddiad yr Athro Munday, a oedd yn ei farn ef yn tynnu sylw at effaith ansicrwydd ar gwmnïau angori a Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Ychwanegodd fod angen eglurder ar

[9] http://llyw.cymru/newsroom/businessandeconomy/2017/59303794/?lang=cy
[10] https://www.fsb.org.uk/docs/default-source/fsb-org-uk/fsb_missing_middle_cym.pdf?sfvrsn=0

fusnesau a chytunodd fod yn rhaid i anghenion yr economi fod yn flaenllaw yn y trafodaethau ynghylch ymadael â'r UE.

2.17 Dywedodd Julie Cook ei bod yn falch o Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar fudo a bod y papur yn ymdrin â'r angen i orfodi deddfwriaeth yn well er mwyn mynd i'r afael ag achosion o gamfanteisio ar weithwyr. Pwysleisiodd bwysigrwydd gwaith teg a'r rôl y mae bargeinio ar y cyd yn ei chwarae o ran hynny.

2.18 Dywedodd Leighton Jenkins fod cyhoeddiadau diweddar Llywodraeth y DU wedi peri pryder. Esboniodd fod angen sicrwydd ar fusnesau gan fod dyletswydd arnynt o safbwynt eu cyfranddalwyr i barhau i weithredu yn ôl yr arfer, ac nid oeddent am weld mwy o rwystrau i fasnach yn y DU. Dywedodd fod busnesau'n cael eu gorfodi i wneud penderfyniadau mewn amgylchedd ansicr.

2.19 Dywedodd Martin Mansfield y byddai senario lle ceir 'diffyg cytundeb' yn peri risg sylfaenol i economi Cymru. Ychwanegodd fod gwaith teg i bobl sy'n gweithio yn hanfodol a bod TUC Cymru yn gwrthwynebu unrhyw ymgais gan Lywodraeth y DU i 'gipio grym'.

2.20 Tynnodd y Prif Weinidog sylw at rai o'r problemau sy'n gysylltiedig â senario lle ceir 'diffyg cytundeb'. Er enghraifft byddai'n rhaid datrys y broblem ynghylch y ffin yn Gibraltar a Gogledd Iwerddon. Byddai'n rhaid creu tollfeydd ar bob ffin ac nid yw Llywodraeth y DU yn barod i wneud hynny. Y dewis arall yw rhoi'r baich ar fusnesau, ac mae'n amlwg bod hynny'n annerbyniol.

2.21 Dywedodd y Prif Weinidog y byddai methu â dod i gytundeb â'n partneriaid masnach agosaf a mwyaf yn yr UE yn fygythiad uniongyrchol i'r economi, byd busnes a swyddi.

2.22 Esboniodd y Prif Weinidog y byddai Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn ei ffurf bresennol yn mynd â phwerau oddi ar Gymru, gan danseilio datganoli. Pwysleisiodd fod angen creu fframweithiau cyffredin i'r DU drwy gydsyniad. Ychwanegodd fod datrys y broblem o ran y ffin yng Ngogledd Iwerddon yn ogystal â bod yn rhan o'r undeb tollau yn allweddol i fuddiannau Cymru.

2.23 Esboniodd y Prif Weinidog y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gryfhau cysylltiadau masnach â'r UE a thu hwnt, gan gynnwys Gogledd America a'r Dwyrain Canol.

2.24 Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol fod Gweinidogion Cymru am weithio'n gadarnhaol gyda Llywodraeth y DU a'u bod yn awyddus i gael trafodaethau manwl ynghylch fframweithiau y cytunir arnynt.

2.25 Cytunodd Leighton Jenkins fod yn rhaid i fframweithiau'r DU gael eu datblygu gyda'r gweinyddiaethau datganoledig. Mynegodd ddiddordeb mewn llofnodi communiqué ar y cyd pe bai Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol.

2.26 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith y byddai'n myfyrio ynghylch sylwadau Julie Cook a Martin Mansfield ynghylch gwaith teg. Ychwanegodd ei fod o'r farn y byddai'n ddefnyddiol rhannu adroddiad yr Athro Max Munday â holl aelodau'r Cyngor.

GWEITHREDU: Swyddogion i anfon at yr aelodau gopi o adroddiad yr Athro Max Munday, a oedd yn edrych ar yr effaith y byddai ymadael â'r UE yn ei chael ar gwmnïau mawr a chanolig eu maint yng Nghymru.

2.27 Diolchodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i aelodau'r Cyngor am eu cyfraniadau. Dywedodd y byddai gwaith y Gweithgor Ymadael â'r UE yn bwysig o ran helpu busnesau Cymru i ymateb i'r heriau hyn, ac y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau â'i hymdrechion i gael yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE i ddod i un o gyfarfodydd y Cyngor.

2.28 Dywedodd Derek Walker fod adroddiad yr Athro Munday yn ddefnyddiol a'i fod yn falch bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei ddosbarthu i'r aelodau. Dywedodd nad oedd busnesau mawr yng Nghymru yn gweld llawer o fanteision o ymadael â'r UE. Dywedodd hefyd fod gan Gymru lawer o brofiad yng nghyswllt Polisi Economaidd Rhanbarthol, y dylai'r DU fanteisio arno wrth ddatblygu ei pholisïau ei hun ar ôl ymadael â'r UE.

3. Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a Gwerth Cymru

3.1 Tynnodd y Prif Weinidog sylw at bwysigrwydd caffael o safbwynt hybu ein dyheadau o ran datblygu economaidd. Tynnodd sylw at y rôl y gall caffael ei chwarae o ran hybu twf busnesau a chadwyni cyflenwi ac o ran cynnal gwaith o safon a gwell swyddi'n nes at adref.

3.2 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol fod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario biliynau bob blwyddyn ar gaffael gwaith, nwyddau a gwasanaethau. Dywedodd ei fod wedi ymrwymo i ddefnyddio gwariant ar gaffael gan bob rhan o'r sector cyhoeddus er mwyn hybu Cymru fel lle da i gyflawni busnes ac er mwyn darparu systemau sy'n caniatáu i gyflenwyr o bob maint ffynnu.

3.3 Wrth ddatblygu rhaglen gaffael newydd, bydd polisi yn mynnu'r gwerth gorau posibl i Gymru o safbwynt cymdeithasol ac economaidd. Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet fod gwariant yn cael ei alinio ag arferion cyfreithiol a moesegol yn y gadwyn gyflenwi, er mwyn sicrhau'r budd economaidd mwyaf posibl.

3.4 Trwy fabwysiadu'r dull gweithredu sy'n seiliedig ar fudd i'r gymuned mae 81% o'r buddsoddiad a fesurwyd, sef oddeutu £1.4 biliwn, wedi'i gadw gan fusnesau yng Nghymru. Mae'r dull hwn o weithredu wedi golygu bod dros 2,000 o bobl wedi cael cymorth i ddechrau gweithio a bod dros 45,000 o wythnosau o hyfforddiant wedi'u darparu yn rhan o gontractau'r sector cyhoeddus.

3.5 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol fod ymadael â'r UE yn cynnig cyfle o bosibl i weithio mewn ffyrdd newydd a gwahanol.

3.6 Cyfeiriodd Martin Warren at berfformiad amrywiol o ran caffael mewn gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus.

3.7 Cyfeiriodd Ifan Glyn at adroddiadau Gwiriadau Ffitrwydd i Gaffael, a oedd yn amlygu problemau. Holodd ynghylch y camau gweithredu y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i annog neu gosbi'r sefydliadau neu'r contractwyr hynny nad ydynt yn cyrraedd targedau.

3.8 Dywedodd Alex Bevan y byddai'r dull gweithredu rhanbarthol newydd yn rhoi prawf ar allu gwaith caffael i sicrhau swyddi da a chyflogau da mewn ardaloedd difreintiedig.

3.9 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol fod gallu a chapasiti'n hanfodol er mwyn ei gwneud yn bosibl i waith caffael gael yr effaith fwyaf er budd Cymru. Ychwanegodd fod angen buddsoddi mewn llwybrau gyrfa er mwyn sicrhau na fyddai cyrff cyhoeddus yn colli staff yr oeddent wedi buddsoddi ynddynt wrth i'w gyrfaoedd ddatblygu.

3.10 O ran Gwiriadau Ffitrwydd i Gaffael, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol ac yn darparu cyngor hefyd. Ychwanegodd ei fod yn awyddus i greu sefyllfa lle mae awdurdodau lleol yn dysgu oddi wrth ei gilydd ar draws Cymru. Cyfeiriodd hefyd at y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol y bwriedir iddo gyflwyno cysondeb ac arloesedd i faes caffael yng Nghymru.

4. Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol

4.1 Tynnodd y Prif Weinidog sylw at yr angen i sicrhau bod gweithgarwch yn canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth. Ychwanegodd fod y Strategaeth yn egluro'r blaenoriaethau na fyddent yn cael eu cyflawni oni bai bod pob rhan o Lywodraeth Cymru yn cydweithio â'i gilydd. Dywedodd y Prif Weinidog y byddai nifer bach o Gynlluniau Gweithredu yn dilyn y Strategaeth, ac y byddai'r rheini yn rhoi mwy o fanylion.

4.2 Gofynnodd y Prif Weinidog i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith gyflwyno'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y Cynllun Gweithredu ar yr Economi (y Cynllun).

Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r Cynllun yn edrych ar draws y Llywodraeth er mwyn cefnogi twf cynhwysol, lledaenu cyfleoedd a hybu lles. Esboniodd y byddai'r Cynllun yn sbarduno tri newid allweddol:

- contract economaidd – er mwyn sicrhau buddsoddi cyhoeddus â diben cymdeithasol

- canolbwyntio ar nifer llai o Sectorau Cenedlaethol a rhoi cymorth i nifer cyfyngedig o sectorau sylfaen
- datblygu economaidd sy'n canolbwyntio ar ranbarthau.

4.3 Dywedodd Ben Cottam nad oedd fawr ddim iddo anghytuno ag ef o ran y Strategaeth a'i fod yn edrych ymlaen at gael mwy o fanylion yn y Cynllun. Ychwanegodd ei fod yn croesawu'r fasnach a'r buddsoddi a nodwyd yn y Strategaeth. Dywedodd fod y Ffederasiwn Busnesau Bach wedi awgrymu y dylid sefydlu Tasglu Gwledig newydd a Chronfa Her Wledig. Dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at weld dehongliad Llywodraeth Cymru o fframwaith rheoleiddio mwy craff.

4.4 Dywedodd Martin Mansfield ei fod yn deall yr heriau sy'n ymwneud â datblygu strategaeth yng nghyd-destun yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â chyni ac ymadael â'r UE. Roedd yn croesawu'r dull gweithredu yn y Strategaeth a dywedodd y byddai partneriaid cymdeithasol yn helpu i gyflawni blaenoriaethau. Dywedodd fod gwaith teg yn hanfodol ac y dylai Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU, weithredu egwyddorion Gwaith Teg yng nghyswllt popeth y mae'n ei wneud.

4.5 Dywedodd Robert Lloyd Griffiths ei fod yn cefnogi'r Strategaeth yn gyffredinol. Gofynnodd am i wybodaeth am y Cynllun gael ei rhannu ag eraill yn effeithiol, ac am i'r Strategaeth gyflwyno dull gweithredu hirdymor.

4.6 Tynnodd Leighton Jenkins sylw at rôl y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol a phwysodd am i benderfyniadau gael eu gwneud yn gynt. Cyfeiriodd at ffordd liniaru'r M4 fel enghraifft o brosiect seilwaith mawr lle byddai'n dymuno gweld penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gynt ac mewn modd mwy ymatebol. Dywedodd fod llawer o flaenoriaethau yn y Strategaeth ac awgrymodd y dylai Llywodraeth Cymru ddilyn esiampl Cydffederasiwn Diwydiant Prydain trwy ddefnyddio system goleuadau traffig a chadarnhau'r hyn yr oedd a'r hyn nad oedd yn ei wneud.

Awgrymodd hefyd y gallai'r sector cyhoeddus ddysgu oddi wrth fusnesau'r sector preifat er mwyn gwella effeithiolrwydd, effeithlonrwydd ac effaith camau gweithredu.

4.7 Dywedodd Martin Warren ei fod yn cefnogi'r Strategaeth a'i fod yn edrych ymlaen at weld manylion y Cynlluniau Gweithredu. Ychwanegodd ei fod yn awyddus i wybod sut y byddai cyllideb Cymru yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau.

4.8 Esboniodd Martin Mansfield yr anawsterau o ran cymharu'r sector preifat â'r sector cyhoeddus – o gofio bod y sector cyhoeddus yn gyfrifol am lawer o wasanaethau cyhoeddus nad yw'r farchnad neu'r angen i wneud elw yn sbarduno'r gwaith o'u darparu. Roedd Leighton Jenkins yn cydnabod hynny ac awgrymodd fod modd edrych ar arfer gorau.

4.9 Tynnodd y Prif Weinidog sylw at y modd y byddai datblygu economaidd rhanbarthol yn rhan o'r Cynllun. Ychwanegodd y byddai'r Bil Llywodraeth Leol

yn ei gwneud yn haws i ddatblygu partneriaethau rhanbarthol ac yn ei gwneud yn orfodol iddynt ganolbwyntio mwy ar gydweithredu ac ar bartneriaethau economaidd.

4.10 Dywedodd y Prif Weinidog y byddai angen datblygu dulliau cyllido newydd wrth i gyllid yr UE gael ei dynnu'n ôl, a fyddai'n cynnwys cael ardaloedd trefol a gwledig i gydweithio ar faterion cyffredin. Ychwanegodd y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal pleidlais ar y gyllideb cyn y Nadolig. Dywedodd y Prif Weinidog fod cyllideb y Cynulliad wedi bod yn gostwng ers 2009 a'i bod yn amlwg bod yn rhaid iddynt sicrhau'r gwerth gorau am bob punt a gaiff ei gwario – byddai syniadau arloesol yn cael eu hystyried.

4.11 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith y byddai gwaith teg yn flaenoriaeth yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Ychwanegodd y byddai gwella sgiliau yn cael sylw hefyd ac y byddai Busnes Cymru yn parhau'n bwynt cyswllt cyntaf pwysig o safbwynt cynnig cyngor a chymorth i economi Cymru.

4.12 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith fod Banc Datblygu Cymru wedi dyblu'r cyllid a oedd ar gael yn flaenorol i fusnesau, a bod ei strategaeth o ran lleoliad yn sicrhau ei fod yn gwasanaethu Cymru gyfan.

4.13 Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at y cyfle i fusnesau cymdeithasol fod yn rhan o'r economi sylfaen, a chadarnhaodd y byddai dull gweithredu'r Cynllun yn un hirdymor gan gadw'r gallu i ymateb yn hyblyg i bwysau byrdymor yn y cylch economaidd.

4.14 Awgrymodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith fod rôl i'r sector cyhoeddus ei chwarae o ran cyfrannu at gynhyrchiant, a dywedodd fod y fenter Creu Sbarc yn enghraifft o hynny. Dywedodd ei fod hefyd yn trafod arloesi yn y Gwasanaeth Iechyd ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

5. Rheilffyrdd – Diweddariad

5.1 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith y weledigaeth ar gyfer rhwydwaith modern ac integredig. Ychwanegodd fod y cynigwyr wedi cael eu gwahodd ar 28 Medi i gyflwyno tendrau terfynol erbyn 21 Rhagfyr. Dywedodd nad oedd y fasnachfraint gyfredol a roddwyd yn 2003 yn addas i'w diben, gan nad oedd wedi caniatáu ar gyfer unrhyw dwf yn nifer y teithwyr. Yn ystod y cyfnod hwnnw roedd nifer y teithwyr wedi dyblu bron i 32 miliwn.

5.2 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith fod y broses gaffael wedi cymell y cynigwyr i ddatblygu ceisiadau o safon uchel. Yn ogystal â masnachfraint Cymru a'r Gororau, ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru hefyd yn gyfrifol am ddarparu'r Metro sy'n cyfrannu at ei hamcan o sicrhau rhwydwaith modern a chydgysylltiedig.

5.3 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ei fod wedi cael trafodaethau defnyddiol â'r Undebau Llafur. Ychwanegodd ei fod wedi dod i gytundeb â'r Undebau Llafur yr wythnos diwethaf ynghylch cael giard ar drenau. Dywedodd y byddai'n anfon y llyfryn ar gyfer y fasnachfraint reilffyrdd newydd at aelodau'r Cyngor. Byddai'n helpu i ddarparu'r weledigaeth ehangach ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru.

GWEITHREDU: Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith y byddai'n trefnu bod y llyfryn ar gyfer y fasnachfraint reilffyrdd newydd yn cael ei anfon at aelodau'r Cyngor.

5.4 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ei fod, maes o law, yn bwriadu sicrhau'r pwerau angenrheidiol i alluogi Trafnidiaeth Cymru i ymgymryd ag ystod ehangach o swyddogaethau trafnidiaeth.

5.5 Dywedodd Martin Mansfield ei fod yn croesawu'r bartneriaeth gymdeithasol â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau rheilffordd o'r radd flaenaf i gymudwyr, yr economi a chymunedau. Er nad oeddent yn gyfystyr â pherchnogaeth gyhoeddus, roedd cynigion Llywodraeth Cymru yn well o lawer na'r rhai a gafwyd yn Lloegr ac roedd yn croesawu'r dull gweithredu mwy cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.

5.6 Dywedodd Derek Walker fod y fasnachfraint yn gyfle gwych i bennu cyfeiriad newydd a phwysleisiodd bwysigrwydd gwneud y gorau o'r cyfleoedd caffael.

5.7 Dywedodd David Morgan a Ben Cottam eu bod yn siomedig â phenderfyniad Llywodraeth y DU i beidio â thrydaneiddio prif reilffordd Great Western rhwng Caerdydd ac Abertawe.

5.8 Dywedodd Ben Cottam ei fod yn croesawu model Trafnidiaeth Cymru.

5.9 Cyfeiriodd Lloyd Powell at oed y cerbydau a'r diffyg capasiti mewn mannau prysur allweddol. Roedd yn croesawu unrhyw beth a allai wella'r sefyllfa hon.

5.10 Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith sylwadau ynghylch y cyfleoedd caffael a chyfleoedd ehangach. Ychwanegodd y byddai'n cyfarfod â'r Ysgrifennydd Gwladol ddydd Llun nesaf i drafod rhai o'r materion a godwyd, gan gynnwys masnachfreintiau rheilffyrdd, trydaneiddio, a'r £700 miliwn y mae Llywodraeth y DU wedi'i arbed trwy beidio â thrydaneiddio'r llinell rhwng Caerdydd ac Abertawe.

5.11 Dywedodd Robert Lloyd Griffiths y byddai dileu'r tollau ar Bont Hafren yn creu tagfeydd wrth Dwneli Bryn-glas, a bod angen i Lywodraeth Cymru ddechrau ar y gwelliannau i'r M4.

5.12 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith y rhagwelir y bydd cynnydd o 20% yn y traffig sy'n teithio i'r ddau gyfeiriad, pan fydd y tollau wedi'u dileu.

6. **(6a) Nodiadau a (6b) Camau gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf**

6.1 Dywedodd y Prif Weinidog fod nodiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2017 wedi'u dosbarthu. Gofynnwyd i'r aelodau am sylwadau a gofynnwyd iddynt gytuno bod y nodiadau'n gywir.

6.2 Cytunwyd bod nodiadau'r cyfarfod yn gywir ac roedd yr holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau.

7. Cyfarfod nesaf

7.1 Dywedodd y Prif Weinidog y byddai cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal ar 1 Chwefror 2018. Ychwanegodd y byddai cyfarfod arbennig yn cael ei drefnu pe bai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn gallu bod yn bresennol i drafod y datblygiadau diweddaraf.

8.0 Unrhyw fater arall

8.1 Gofynnodd y Prif Weinidog a oedd unrhyw fater arall. Ni chafodd unrhyw fater arall ei godi.

8.2 Daeth y Prif Weinidog â'r cyfarfod i ben gan ddiolch i aelodau'r Cyngor am eu presenoldeb a'u cyfraniadau.

9.0 Diwedd